Cenn@d

10 Mehefin 2026

Rhifyn 276

WYTHNOSOLYN CRISTNOGOL CYMRAEG

a noddir gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru

UBC BUW

GOLEUNI'R BYWYD

# 5,000 o emynau a mwy - ail-lansio gwefan www.gobaith.cymru

Ers ei lansio yn 2002 mae gwefan gobaith.cymru wedi bod yn ffynhonnell werthfawr i bawb sy'n chwilio am emynau Cymraeg. Yn ddiweddar cafodd y wefan hon ei diwygio a'i ail-lansio, gyda nifer o ychwanegiadau i gefnogi'r rhai sy'n cynnal mawl a chân yn ein heglwysi. Ymhlith y diweddariadau hyn y mae'r canlynol:

### Adran Caneuon Newydd

Dyma'r cynnwys gwreiddiol, sef geiriau a chyflwyniadau PowerPoint o ganeuon ac emynau, hen a newydd, yn Gymraeg. Mae nifer o bobl ar draws Cymru yn cyfansoddi ac yn cyfieithu emynau, ac mae gobaith.cymru yn gartref i'r geiriau hyn. Mae pob emyn sydd ar y wefan wedi ei awdurdodi gan y cwmni cerddoriaeth sy'n dal yr hawlfraint, ac atgoffwn bobl yn garedig nad oes hawl i ganu geiriau Cymraeg nad ydynt wedi eu hawdurdodi gan y cwmni sy'n berchen arnynt. Bydd caneuon newydd yn cael eu hychwanegu'n gyson, a bydd Delyth Wyn Davies, sy'n gyfrifol am weinyddu'r wefan, yn falch o dderbyn unrhyw gyfieithiadau newydd.

### Adran Gwybodaeth am Emynau

O fewn yr adran hon ceir pob math o wybodaeth sy'n sôn am ffynonellau, adnoddau, trwyddedau, gwybodaeth hawlfraint, ffynhonnell cyfrolau emynau i bob oed, a gwybodaeth am wefannau eraill lle mae clipiau ffilm ar gael yn Gymraeg a Saesneg. Gall hyn fod yn help i eglwysi wrth geisio dysgu emynau newydd.

**Caneuon Newydd**

**Rhestr ddiweddaraf o ganeuon ac emynau newydd, yn cynnwys cyfieithiadau cyfoes**




**Gwybodaeth am Emynau**

**Cliciwch yma i fynd i wefan cristnogaeth.cymru i ddarganfod mwy o wybodaeth am emynau Cymraeg**




**Adnoddau Caneuon Ffydd**

**Mynegai i themâu, llinellau cyntaf a chyfeiriadau ysgrythurol**




**5,000 o emynau a mwy**

**Casgliad helaeth o emynau wedi eu casglu gan Richard Gillion (*Angelfire* gynt). Yn cynnwys llawer nad ydynt yn ein llyfrau emynau cyfoes, yn ogystal â chyfieithiadau Saesneg o nifer ohonynt.**




**Traciau Cyfeiliant i Emynau**

**Cliciwch yma i fynd i wefan lle ceir dros 500 o donau ar gyfer emynau Cymraeg poblogaidd**



**Cyfeiriadur Dwyieithog**

**Cliciwch yma i fynd at restr gynhwysfawr o'r emynau sydd ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg, ochr yn ochr.**



Galwad i Genhadaeth: Stori Donna a Ruth
Tudalen 3

Yr argyfwng Ebola yn y Congo: datganiad gan Gymorth Cristnogol
Tudalen 4

Proffwydi Cymru heddiw
Tudalen 5

## Adran *Caneuon Ffydd*

Erbyn hyn mae bron pob cynulleidfa Gymraeg yn defnyddio *Caneuon Ffydd*. Yn yr adran hon ceir tri mynegai i eiriau'r emynau: yn ôl themâu; yn ôl cyfeiriadau Beiblaidd; ac yn ôl llinellau cyntaf penillion yr holl emynau yn y casgliad.

## Adran 5,000 a mwy o emynau

Hwn, mae'n debyg, yw'r casgliad mwyaf o emynau Cymraeg sydd ar gael ar lein. Casglwyd yr emynau gan y Parch. Richard Gillion, Porthcawl, dros ddegawdau. Yn ogystal â geiriau'r emynau ceir hefyd gyfieithiad Saesneg, sy'n gymorth i'r rhai di-Gymraeg sy'n canu'r geiriau i ddeall eu hystyr. Eto, ceir mynegair cynhwysfawr i'r casgliad.

## Adran Traciau Cyfeiliant *Caneuon Ffydd*

Mewn cydweithrediad â Small Church Music, ceir cannoedd o donau yma i gyd-fynd â holl emynau *Caneuon Ffydd*. Mae rhestr o'r emynau yn nhrefn *Caneuon Ffydd* ar y wefan, a thrwy glicio ar eiriau'r emyn cewch fynediad at draciau mp3, yn rhad ac am ddim, sy'n cynnwys cyfeiliant piano, organ neu gerddorfa. Noder bod angen cofrestru (nid oes cost i wneud hyn) ac wedi gwneud hynny un waith fe gewch fynediad dro ar ôl tro, heb fod angen cofrestru eto.

## Adran Cyfeiriadur Dwyieithog

Bydd llawer yn holi a yw'r emyn hwn a'r llall ar gael yn Gymraeg neu yn Saesneg! O fewn y cyfeiriadur hwn mae modd edrych ar restr yr emynau Cymraeg neu Saesneg, a gweld a yw'r emyn hwnnw hefyd ar gael yn yr iaith arall. Byddem hefyd yn falch o glywed gan unrhyw un sy'n gwybod am eiriau rhagor o emynau sydd ar gael yn y ddwy iaith.

**Diolchwn i Arfon Jones am ei weledigaeth yn sefydlu'r wefan hon, a'n braint ni fel Cyngor yr Ysgolion Sul yw parhau â'r gwaith a ddechreuwyd gan Arfon, ac yna a gyflawnwyd gan Gwenda Jenkins.**

Meddai Arfon, 'Cafodd gwefan gobaith.org ei lansio bron chwarter canrif yn ôl yn 2002 gan Gobaith i Gymru, ochr yn ochr â gwefan beibl.net. Y bwriad gyda beibl.net ar y pryd oedd rhannu cyfieithiad mwy llafar ei natur o'r Testament Newydd i ddenu mwy o bobl i ddarllen yr Ysgrythur. Roedd y cyfieithiad wedi'i anelu at bobl ifanc a dysgwyr y Gymraeg yn bennaf, i'w helpu i ddeall neges y Testament Newydd yn well. Bwriad yr ail wefan, gobaith.org, oedd gwasanaethu'r eglwysi drwy rannu emynau cyfoes yn rhad ac am ddim ar lein. Roedd llawer o'r caneuon eisoes wedi ymddangos yn y casgliadau *Iddo Ef!*, *Grym Mawl* a *Grym Mawl 2*.

'Y weledigaeth oedd gwasanaethu achos Iesu Grist ymhlith y Cymry Cymraeg drwy ymateb yn greadigol i'r argyfwng ysbrydol roeddem yn ei wynebu. Un o'n sloganau ar y pryd oedd "Rhaid i bethau newid!" Roeddem yn awyddus i helpu mwy a mwy o eglwysi i fynd i'r afael â'r angen i newid os oeddem yn mynd i genhadu'n effeithiol a bod yn eglwysi ffyddlon a pherthnasol yn yr unfed ganrif ar hugain. Rhan o hyn oedd helpu eglwysi a Christnogion i wneud defnydd o'r dechnoleg ddigidol oedd ar gael ar y pryd. Roeddem hefyd am annog eglwysi i ddefnyddio caneuon mwy cyfoes yn eu haddoliad. Roedd rhaid ystyried gwneud pethau newydd a gwahanol, ac nad oedd "parhau fel yr oedden ni" yn opsiwn cenhadol. Roeddem am geisio herio'r ysbryd o anobaith oedd yn nodweddu cymaint o'n cynulleidfaoedd, y dirywiad "disgwyliedig" yn y niferoedd oedd yn mynychu addoliad, a'r ffaith fod cenhedlaeth o bobl ifanc yn troi cefn ar ein heglwysi.

gobaith.cymru

Cyngor Ysgolion Sul

Emynau a chaneuon mawl i'w lawrlwytho am ddim

'Ond roeddem hefyd yn ymwybodol fod nifer fawr o Gymry Cymraeg (gan gynnwys llawer o'n pobl ifanc) yn dewis addoli mewn eglwysi Saesneg eu hiaith. Roedd natur yr addoliad yn yr eglwysi hynny yn tueddu i fod yn llawer mwy rhydd a chyfoes ei naws. Felly, roedd darparu cyfieithiadau o emynau a chaneuon addoli cyfoes oedd yn boblogaidd yn y Saesneg yn un ffordd o helpu eglwysi i gynnig rhywbeth gwahanol i'w cynulleidfaoedd. Roeddem am weld pontio'r gagendor rhwng y diwylliant cyfoes Cymraeg oedd yn datblygu ymhlith y to ifanc a'r eglwysi oedd yn rhy aml yn gwbl gaeth i'w patrymau traddodiadol o addoli. Roedd y cyfieithiadau cyfoes hyn hefyd yn galluogi rhai o'r eglwysi di-Gymraeg, a mudiadau Cristnogol amrywiol oedd yn gweithio yng Nghymru, i ddarparu a datblygu eu haddoliad mewn modd fyddai'n cynnwys elfen o ddwyieithrwydd.

'Dros y blynyddoedd ychwanegwyd mwy a mwy o gyfieithiadau newydd o ganeuon addoli cyfoes a rhai caneuon gwreiddiol i'r casgliad. Yna, yn ddiweddarach, penderfynwyd mynd ati (gyda chaniatâd deiliaid yr hawlfraint) i ychwanegu'r emynau o *Caneuon Ffydd*, eto gyda'r bwriad o sicrhau fod yr adnoddau hyn ar gael yn ddigidol.

'Pan ddaeth yr elusen Gobaith i Gymru i ben yn 2018, y cam naturiol yn ein golwg oedd trosglwyddo'r ddwy wefan i ofal y Cyngor Ysgolion Sul.'

Yn yr un modd, diolchwn i Richard Gillion am ymddiried ei gasgliad o emynau i'n gofal. Bu'r rhain ar wefan Angelfire tan i honno ddod i ben yn ddiweddar, felly mae'n dda eu bod ar gael unwaith eto i'w lawrlwytho.

Wrth ei holi am ei waith, dywedodd Richard, 'Ar biano fy nain a nhaid yn Swydd Efrog roedd copi o *Emynau a Thonau*, rhodd iddyn nhw gan bregethwr gwadd. Dechreuais gymharu cyfieithiadau Cymraeg o emynau Saesneg â'r fersiynau gwreiddiol, gan ddefnyddio fy sgiliau sylfaenol, hunanddysgedig yn Gymraeg. Cyn bo hir roeddwn yn awyddus i ddeall yr emynau Cymraeg gwreiddiol.

'Ar ôl cael fy ngalw yn weinidog Methodistaidd i symud i Gasnewydd, penderfynais ddysgu'r iaith yn fwy trylwyr. Ehangais fy nghasgliad bach o gyfieithiadau llythrennol ac fe dyfodd dros y deng mlynedd canlynol yn gorff sylweddol o waith.

'O ganlyniad i'r gwaith hwn cefais fy annog i ystyried penodiad pum mlynedd i weinidogaethu yng Ngwynedd ac Ynys Môn, lle roeddwn yn defnyddio'r cyfrolau *Emynau a Thonau* a *Caneuon Ffydd* o ddifri bob wythnos.

'Rwy'n falch o fod wedi derbyn negeseuon o werthfawrogiad o bob cwr o'r byd. Gall aelodau corau yn Awstralia ddeall beth maen nhw'n ei ganu. Mae'n galonogol iawn fod gan fy nghasgliad o gyfieithiadau gartref newydd bellach ar y we.'

Mae'r holl adnoddau ar wefan www.gobaith.cymru am ddim, a hyderwn bydd yr adnodd hwn yn fodd i gyfoethogi addoliad ar draws Cymru.

*Aled Davies*

# Galwad i Genhadaeth: Stori Donna a Ruth

Dros y ddwy flynedd ddiwethaf bu'n hyfryd croesawu nifer o aelodau newydd i'n Cymuned Ddysgu Gweinidogaeth Genhadol. Wrth i ni glywed eu straeon, cawn ein hatgoffa unwaith eto sut mae'r Arglwydd yn parhau i alw pobl i waith ei deyrnas yma yng Nghymru. Yn y rhan gyntaf hon, clywn straeon Donna a Ruth yn cael eu galw i genhadaeth ...

## Hanes Donna – Galwad i'r Gair, ac i Genhadaeth!

Mae Donna yn hanu o sir Benfro, wedi'i magu ym Mwlch-y-groes, Crymych. Mynychodd yr ysgol Sul a chafodd ei bedyddio yng Nghapel Blaenffos cyn dychwelyd i gapel gwreiddiol y teulu, sef Capel y Bedyddwyr, Star. Magwyd Donna ar aelwyd grefyddol – ond mae'n rhannu â ni am ei galwad a'r daith ffydd bersonol y mae wedi bod arni dros y blynyddoedd diwethaf.

Dechreuodd Donna deimlo galwad cryf, yn bennaf wrth iddi ddarllen rhannau o'r Beibl. Rhai o'r geiriau a gafodd effaith ar Donna oedd geiriau'r Arglwydd Iesu yn Luc 23:46 pan ddywed ar y groes: 'i'th ddwylo y cyflwynaf fy ysbryd'. Er mai geiriau'r Arglwydd wrth ei Dad yw'r rhain, teimlodd Donna fod gwahoddiad iddi hi weddïo'r un geiriau dros ei bywyd hi ei hunan. Teimlodd alwad i roi ei bywyd yn llwyr i ofal Duw.

Adnodau pwysig eraill a gyfrannodd at yr ymdeimlad o alwad oedd llyfr y Datguddiad 2:1–7, lle mae Ioan yn disgrifio gweledigaeth y saith seren a'r saith canhwyllbren. Clywodd Donna ddehongliad ysbrydoledig ohoni a gyffyrddodd â hi: mai ni, fel Cristnogion, yw'r sêr yn nwylo Crist, a bod gwahoddiad i ni dywynnu Ei oleuni ymhlith y cenhedloedd.

Gyda'r ymdeimlad hwn, mae Donna wedi bod yn archwilio'i galwad i weinidogaeth genhadol. Rhan o'i hangerdd a'i brwdfrydedd wrth iddi edrych ymlaen yw fod Cristnogion yn dod i ddeall y dylent fod yn ddrych i waith yr Arglwydd, a bod galwad i ni estyn allan at rai sydd y tu allan i gymuned ffydd.

Gwêl hefyd bwysigrwydd ffydd o ran iechyd meddwl – ac mae'n archwilio sut i annog eraill i weld ffydd fel rhan hollol allweddol o'n cymunedau.

## Stori Ruth – Yr Alwad i Dyddewi

Dechreuodd Ruth ei thaith i'r weinidogaeth yng Nghymru tra oedd yn astudio mewn Coleg Beiblaidd yn Horsham, Lloegr. Aeth Ruth i'r coleg ar ôl gorweithio yn ei swydd fel Gweithiwr Plant ac Ieuenctid. Dywed Ruth: 'Fe es i drwy amser anodd, yn bennaf achos fy mod i'n caru "gwneud" ... a doeddwn i ddim yn gwerthfawrogi pwysigrwydd gweddi o gwbl.'

Yn ystod ei hamser yn adfer, symudodd rhieni Ruth i fyw yn Nhyddewi. Pan aeth Ruth i'w gweld, cyfarfu â grŵp o bobl o blaniad eglwys Fedyddiedig newydd o'r enw 'Y Groesfan'.




Pan aeth hi yn ôl i barhau â'i hastudiaethau yn Lloegr, dechreuodd pethau newid. Ei geiriau hi oedd: 'Doedd gen i ddim bwriad o gwbl i symud i Dyddewi', ond fe ddigwyddodd rhywbeth mewn cwrdd gweddi na allai hi ei esbonio heblaw fel 'eiliad Duw'.

Yn sydyn, ac yn gryf iawn – fe deimlodd Ruth y cariad oedd gan Dduw at bobl Tyddewi, a chofiodd am yr adnod hon: 'Ni'th adawaf fyth, ac ni chefnaf arnat' (Hebreaid 13:5). Gwelodd hefyd lun clir o fodrwy yn mynd ar law – fel yn Haggai 2:23 – a theimlad clir y dylai symud i Dyddewi.

Ychydig yn ddiweddarach, dywedodd ffrind iddi oedd yn gweddïo dros Ruth ei bod wedi gweld llun yn ei meddwl o Dduw yn rhoi modrwy ar law Ruth – a bod Duw yn dweud wrthi hi, 'Ni'th adawaf fyth, ac ni chefnaf arnat'. Gofynnodd y ffrind a oedd hyn yn golygu rhywbeth iddi. Fe wnaeth ffrind arall oedd yn gweddïo drosti rannu ei bod wedi teimlo bod Duw yn galw Ruth i wneud rhywbeth penodol, ac y 'dylai ei wneud'!

Yn y diwedd ildiodd Ruth i'r ymdeimlad clir fod Duw yn ei galw. Ymunodd ag eglwys ifanc y Groesfan a helpu i arwain yr eglwys yn wirfoddol rhwng 2011 a 2014, yn ogystal â gweithio'n lleol mewn nifer o swyddi er mwyn dod i adnabod y gymuned yn well.

Er bod Ruth wedi camu'n ôl o'r weinidogaeth uniongyrchol yn Nhyddewi ar hyn o bryd, disgrifia sut y mae'r tymor presennol hwn wedi bod yn ffrwythlon o ran cenhadaeth!

Mewn cam ffydd, fe wnaeth Ruth leihau ei dyddiau gwaith i dridiau yr wythnos, ac mae hyn wedi rhoi mwy o amser iddi ymwneud â'r gymuned leol. Fel nifer ohonom, darganfu fod nifer yn dod yn fwyfwy agored i drafod materion ffydd, a chafodd nifer o sgyrsiau arwyddocaol yn ystod y cyfnod hwn. Dychwelodd Ruth hefyd i'r alwad gyntaf o weddi, ac mae hi'n parhau i fynd ar deithiau gweddi o leiaf ddwywaith yr wythnos yn yr ardal leol.

Golygai'r newid tymor hefyd fod Ruth wedi medru ymwneud â Hyfforddiant Gweinidogion Cenhadol UBC, ac mae'n parhau i archwilio ei galwad i genhadaeth – lle bynnag y bydd Duw yn ei harwain!

Gweddïwn am fendith ar Donna a Ruth wrth iddynt archwilio'u galwad i genhadaeth yng Nghymru!

# Yr argyfwng Ebola yng Ngweriniaeth Ddemocrataidd y Congo: datganiad gan Gymorth Cristnogol

Mae straen newydd ac angheuol o Ebola ar led mewn cymunedau yng Ngweriniaeth Ddemocrataidd y Congo wrth i'r wlad wynebu un o'r argyfyngau dyngarol mwyaf cymhleth yn y byd. Yn dilyn degawdau o wrthdaro arfog, mae'r systemau iechyd wedi chwalu ac mae miliynau o bobl wedi gorfod gadael eu cartrefi. Felly, mae'n anoddach i gymunedau eu hamddiffyn eu hunain pan fydd clefydau'n taro.

Yn y cyd-destun anodd hwn, mae achosion newydd o Ebola yn ymledu. Ym mis Ebrill 2026 cyhoeddwyd bod achosion newydd o Ebola ar led, a'r tro hwn straen Bundibugyo o'r feirws sydd wedi taro'r wlad. Mae'n ymledu drwy daleithiau Ituri a Gogledd Kivu, rhanbarthau sydd eisoes dan bwysau enfawr oherwydd dadleoli a diffyg diogelwch.

### Pam mae'r achosion hyn yn wahanol?

Dydy Gweriniaeth Ddemocrataidd y Congo ddim wedi wynebu straen Bundibugyo o Ebola o'r blaen. Felly, nid oes unrhyw frechlyn cymeradwy nac unrhyw driniaeth benodol ar gael ar hyn o bryd. Yr unig ffordd i arafu'r lledaeniad yw drwy atal y feirws – gweithredu'n gynnar, darparu gwybodaeth glir, a sicrhau bod cymunedau'n gweithio gyda'i gilydd i atal y gadwyn drosglwyddo.

Dyna pam mae'r cyd-destun yn yr achos hwn yn un mor argyfyngus. Mae'r feirws yn lledaenu'n gynt oherwydd bod cymaint o'r boblogaeth yn symud, bod y gwersylloedd dadleoli yn orlawn, a chamwybodaeth yn rhemp.

"Mae'r achosion o glefyd y feirws Ebola yng Ngweriniaeth Ddemocrataidd y Congo, a hynny am yr 17eg tro, ynghyd ag ymddangosiad y straen Bundibugyo yng ngogledd-ddwyrain talaith Ituri – sy'n cael effaith ledled rhanbarth y Llynnoedd Mawr a dinas Goma – wedi gwaethygu sefyllfa ddyngarol, gymdeithasol ac economaidd argyfyngus y boblogaeth hon, sydd wedi para dros ddau ddegawd." – Salome Ntububa, Arweinydd y Rhaglen a Phartneriaethau, Y Llynnoedd Mawr, Cymorth Cristnogol

### Y bobl sydd yng nghanol yr argyfwng hwn

Ar hyn o bryd, menywod yw tua 60% o'r rhai sy'n cael eu heffeithio, ac nid cyd-ddigwyddiad mo hynny. Mae menywod yn fwy tebygol o fod yn gofalu am berthnasau sâl ac am yr aelwyd – rolau sy'n golygu eu bod yn fwy tebygol o ddod i gysylltiad â'r feirws.

Hefyd, mae'r achosion hyn yn taro cymunedau sydd eisoes yn byw drwy un o'r argyfyngau newyn mwyaf yn y byd. Mae angen bwyd ar frys ar dros 27 miliwn o bobl yng Ngweriniaeth Ddemocrataidd y Congo.

Mae gwrthdaro parhaus wedi dinistrio gwasanaethau gofal iechyd sydd eisoes dan bwysau oherwydd achosion o'r frech goch a cholera. Mewn llawer o gymunedau, mae glanweithdra gwael a diffyg mynediad at ddŵr glân yn sbarduno lledaeniad clefydau angheuol ac yn bygwth goroesiad teuluoedd.

I deuluoedd sydd eisoes yn dioddef yn sgil gwrthdaro, newyn a dadleoli, mae'r achosion hyn yn eu gwthio'n agosach at y dibyn.

### Beth mae Cymorth Cristnogol a'n partneriaid yn ei wneud?

Yn barod, mae ein partneriaid yn gweithredu yn y cymunedau sy'n cael eu heffeithio. Mae gan Communauté Baptiste au Centre de l'Afrique (CBCA), Bureau Œcuménique d'Appui au Développement (BOAD) a'r Eglise Anglicane du Congo oll brofiad helaeth o ymateb i argyfyngau iechyd yng Ngweriniaeth Ddemocrataidd y Congo, gan gynnwys yr achosion o Ebola yn 2019 a'r argyfwng Mpox yn 2025. Maent yn adnabod y cymunedau, y lleisiau dibynadwy a'r sianelau i atal lledaeniad y feirws.

Rydym eisoes yn cefnogi ymdrechion lleol drwy gydweithredu â sefydliadau cenedlaethol a chymunedol, partneriaid datblygu rhyngwladol, ac awdurdodau lleol – pob un yn gweithio i gyflwyno negeseuon i hyrwyddo arferion iechyd diogel mewn cymunedau sy'n cael eu heffeithio. Mae ein profiad o ymateb i argyfyngau iechyd yn y gorffennol yn dangos bod arweinwyr ffydd yn gallu gwneud gwaith hanfodol, wrth i gymunedau wrando ar eu cyngor ynghylch sut i leihau'r risg o heintiau. Mae gweinidogion ac arweinwyr ffydd felly'n rhannu gwybodaeth ac wrthi'n herio negeseuon camarweiniol. Mae gweithwyr iechyd cymunedol yn cyrraedd eglwysi, ysgolion a marchnadoedd gyda gwybodaeth i gadw teuluoedd yn ddiogel.

### Apêl Argyfwng Ebola

Rydym wedi lansio apêl i gefnogi mwy o deuluoedd sydd mewn angen. Gyda'ch cefnogaeth, bydd ein partneriaid yn medru:

- cyrraedd 350,000 o bobl gyda gwybodaeth iechyd hanfodol
- cefnogi gweithwyr iechyd cymunedol i ymweld ag eglwysi, ysgolion a marchnadoedd i rannu gwybodaeth am sut i atal y feirws
- darparu pecynnau hylendid, yn cynnwys sebon, bwcedi a thuniau dŵr ar gyfer golchi dwylo i 12,000 o deuluoedd (tua 6,000 o bobl)
- sefydlu bron i 50 o fannau golchi dwylo cyhoeddus.

**I gyfrannu at yr apêl, cliciwch ar y ddolen: www.christianaid.org.uk/appeals/emergencies/ebola-emergency-appeal**




### Gweddïwch gyda ni

Dduw cariadus, rwyt ti'n ein gweld ac yn ein hadnabod.
Rwyt ti'n bresennol gyda ni yn ystod amser o ddioddef.
Gweddïwn dros bawb sy'n cael eu heffeithio gan ledaeniad Ebola.
Cysura'r rhai sy'n sâl,
Cynnal y rhai sy'n galaru,
Gwarchod y rhai sy'n rhoi gofal.
Gweddïwn dros iechyd a diogelwch ein partneriaid a staff meddygol wrth iddynt drin y rhai sydd wedi'u heffeithio.
Gweddïwn am gryfder i gymunedau a theuluoedd yng Ngweriniaeth Ddemocrataidd y Congo ac Uganda.

Gweddïwn y ceir datrysiadau'n fuan wrth i frechlynnau a thriniaethau gael eu datblygu.

Gweddïwn y bydd y byd yn uno i weithredu a rhoi cefnogaeth i'n cymdogion byd-eang.

Dduw cariadus, gofynnwn hyn yn enw Iesu. Amen.

# Pynciau Perthnasol – colofn Rosa Hunt



## Proffwydi Cymru heddiw

Fe ges i'r fraint aruthrol yn ddiweddar o gyf-weld tri awdur o Gymru yng Ngŵyl y Gelli ar gyfer rhaglen BBC Radio Wales *All Things Considered*.

Y Parchedig Nathan Munday, gweinidog cyswllt Heath Evangelical oedd yr un cyntaf, y Parchedig Mark Clavier, deon yn yr Eglwys yng Nghymru oedd yr ail, ac Elinor Wyn Reynolds, Ysgrifennydd Cyffredinol Undeb yr Annibynwyr, oedd y trydydd.

Beth yw'r cysylltiad rhwng y tri? Mae'r tri ohonynt yn ddisgyblion i Iesu Grist sydd wedi profi galwad i wasanaeth Cristnogol llawn amser, ac mae'r tri ohonynt wedi ysgrifennu nofel yn ddiweddar.

Prif bwynt y cyfweliad oedd gofyn: a all ysgrifennu ffuglen fod yn rhan o wasanaethu Iesu Grist? Pam ysgrifennu nofelau yn hytrach na phregethau?

*Whaling* yw llyfr Nathan Munday, nofel sy'n adrodd hanes grŵp o Grynwyr o Nantucket a ddaeth i sefydlu cymuned yn Aberdaugleddau. Yn fuan iawn ar ôl iddyn nhw gyrraedd, mae morfil yn cyrraedd hefyd ac yn mynd yn sownd ar y traeth. Mae'r nofel yn archwilio ymateb y bobl leol i'r mewnfudwyr – y morfil a'r Americanwyr. Mewn ffordd glyfar dros ben mae Munday yn cyferbynnu ofergoelion ac ofn â chrefydd a lletygarwch, a'r un pryd yn plethu straeon o'r Beibl a llenyddiaeth glasurol i mewn i'r gwaith. Mae'r nofel yn ein gorfodi i archwilio ein hunain, ein hymateb i bethau a phobl newydd, a'r ffordd rydyn ni efallai'n defnyddio crefydd i guddio rhag mawredd Duw.

*Tillers of the Soil* yw llyfr Mark Clavier, ac yn rhyfedd iawn mae Clavier yn archwilio themâu tebyg – sut ydyn ni'n ymateb i newid pan fydd yr hen arferion yn diflannu – ond mewn cyd-destun hollol wahanol. Yn hytrach na gorllewin Cymru yn y ddeunawfed ganrif, mae Clavier yn mynd â ni i Fannau Brycheiniog yn y bedwaredd ganrif i brofi bywyd ar aelwyd sy'n cael ei ddylanwadu gan Rufain, Iwerddon, hen arferion Cymreig a ffydd newydd, Gristnogol. Unwaith eto, mae'r llyfr yn ein gorfodi i ofyn cwestiynau pwysig: beth yw fy mherthynas â'r wlad lle dwi'n byw? Pa stori sy'n rheoli fy mywyd i? Ydy hi'n bosibl i fi gydweithio â phobl sy'n wahanol i fi i greu un stori sy'n ein huno yn hytrach na'n gwahanu?

Ac wedyn roedd Elinor Wyn Reynolds yn trafod ei llyfr *Gwirionedd,* teyrnged i'r cariad rhwng merch a'i thad, ond hefyd ddadansoddiad onest, cignoeth a barddonol o'r profiad cymhleth o alaru. Mae Elinor yn rhoi geiriau (a chaniatâd) i ni fynegi ein hemosiynau dyfnaf – a dyma, wrth gwrs, fraint a chyfrifoldeb y bardd a'r awdur. Dyma nofel sydd wedi gwneud i fi chwerthin a chrio bob yn ail, oherwydd mae Elinor yn defnyddio'i phrofiad personol hi, yn ogystal â'i dawn ryfeddol i sylwi a disgrifio, i dynnu llun hollol onest o deulu mewn galar.

Yn enwedig heddiw, pan na fydd mwyafrif pobl Cymru'n mynd i eglwys neu gapel ar y Sul, dylen ni fod mor ddiolchgar i awduron a beirdd Cristnogol sy'n defnyddio'u doniau i gyfleu gobaith a chariad Iesu Grist drwy eu nofelau




a'u barddoniaeth. Os hoffech chi glywed y cyfweliad, mae e ar gael ar BBC Sounds – ac wedyn, prynwch eu llyfrau nhw, rhowch nhw fel anrhegion a'u darllen nhw! Am fraint i gael awduron mor dalentog yn ein mysg ni yng Nghymru heddiw, ac awduron sy'n barod i fynegi eu ffydd mewn ffordd mor ddiddorol!

## Cyfarfodydd Blynyddol Undeb Bedyddwyr Cymru 2026

Estynnwn wahoddiad i chi ymuno â chyfarfodydd blynyddol yr Undeb ar 18–21 Mehefin eleni, yn y Tabernacl, Caerdydd.

Mae pedwar diwrnod o gyfarfodydd, gweithgareddau a chyfleoedd i gymdeithasu a mwynhau'r ddinas wedi eu trefnu eleni, a byddem wrth ein bodd petaech yn gallu ymuno â ni am ran o'r amser, neu'r cyfan.

Byddwn yn dilyn y thema 'Rhodiwch mewn cariad', yn seiliedig ar Effesiaid 5:2, o dan arweiniad ein llywydd newydd, y Barch. Ddr Rosa Hunt.


Mae rhaglen lawn, a ffurflen i archebu lle ar gael ar wefan Undeb Bedyddwyr Cymru: www.ubc.cymru.

Noder bod croeso i unrhyw un ymuno â ni ar gyfer unrhyw un o'r oedfaon cyhoeddus yn ystod yr wythnos heb roi gwybod i ni ymlaen llaw.



# Codi'r Llen: merched yr Hen Destament a'u dewisiadau

Maes Llafur i oedolion 2025/26




**Codi'r Llen 26**

## Ymson Delila

Fi yw'r ferch a fradychodd Samson. Serch hynny, ymbiliaf arnoch i weld sut y cefais fy nhemtio gan leisiau dynion pwerus. Roedden nhw yn fy nghlustiau bob munud, yn boddi llais fy nghydwybod. Dyna pam y syrthiais a dewis cyfnewid ffyddlondeb am arian.

Gwyddwn fod Samson yn ddyn oedd yn perthyn i Dduw ac nad oedd modd ein cymharu ni – fi a fe. Ond, o edrych yn fwy gofalus, onid oeddem ein dau'n bobl diffygiol?

Cofir Samson am ei gryfder. Pan ddaeth ataf am y tro cyntaf, gwelais ddyn allai rwygo pen llew oddi ar ei gorff neu dorri rhaffau'n ddarnau fel pe baent yn edafedd sidan. Roedd cenhedloedd yn ei ofni, a'r pryd hwnnw gwelais rywun na allai gael ei ddifa. Ymhen ychydig, deallais ei fod yn ymddiried yn ormodol yn y rhodd a gawsai, yn hytrach nag yn y Rhoddwr. Teimlais ei fod yn cerdded yn agos at y dibyn; gwyddwn, wrth gwrs, y dylai osgoi hynny ar bob cyfrif. Gêm oedd temtasiwn iddo, a chredai mai ef fyddai'r olaf ar ei draed bob tro. Wyddai o ddim fy mod yn gweld ei gorff hardd ond hefyd yn gweld i mewn i'w enaid. Doedd e ddim bob amser yn gryf, ac yn sicr doedd e ddim yn berffaith!

Beth amdanaf fi? Fedrwn i ddim difa llu o filwyr arfog, ond roeddwn yn rymus drwy fy harddwch. Yn fy nghalon, serch hynny, roedd gwendid – rhywbeth oedd yn fy ngwthio i ddymuno mwy. Cefais ddynion yn fy chwennych, mae'n wir, ond fe flinais arnynt. Pan ddaeth addewid am aur ac arian, daeth haen o niwl dros gannwyll fy llygaid a chefais fy nallu gan hunanoldeb.

Erbyn hynny roedd Samson yn fy ngharu. Gallwn fod wedi parhau i nofio mewn môr o gariad, ond roedd y dyheu am ennill y gêm yn fwy na hynny. Rhaid oedd cael gwybod ei gyfrinach; daeth y peth yn obsesiwn, a fedrwn i ddim meddwl am ddim arall. Dechreuais ei holi'n ddi-baid. Weithiau byddai'n rowlio'i lygaid ac yn ochneidio, ond roedd Samson yn wahanol i bawb arall: roedd ganddo amynedd. Bob dydd, ro'n i'n hanner disgwyl iddo wylltio a sylweddoli'r gwir. Fy ngwendid innau oedd fy mod yn rhoi mwy o bwys ar yr hyn y gallwn ei gael, yn hytrach na dal gafael ar y gwir.

Mae rhai wedi holi sut allai Samson fod wedi ymddiried ynof ar ôl cynifer o arwyddion i'r gwrthwyneb. Yn ei berthynas â mi, roedd e wedi meddwl ei fod yn saff ac y gallai fod yn hyderus. Efallai ei fod hefyd yn gweld adlewyrchiad ohono'i hun ynof fi: person oedd weithiau'n annoeth ac yn brydferth ar adegau eraill. Wrth edrych 'nôl, gwelaf sut yr oedd Duw gydag e ym mhob cam. A'r hyn sy'n fy synnu yw'r sylweddoliad fod Duw'n aros gyda dyn amherffaith fel Samson. Fe wnaeth gamgymeriadau, fe fethodd nifer o weithiau. Ond, wrth iddo gwympo, roedd Duw yn ei ddal. Wrth i'w elynion ddathlu, roedd Duw'n dangos nad dyna ddiwedd y stori. Yn nhywyllwch ei gaethiwed, deallodd Samson rywbeth mawr. Gwelodd mai peth brau yw cryfder dyn. Gwelodd falchder yn dymchwel. Gwelodd mai'r hyn sy'n cynnal rhywun yw dibyniaeth ar Dduw.

Fedra i ddim esgusodi fy rhan i yn ei bennod olaf. Ni allaf chwaith ddad-weld yr hyn a welais: fod Duw yn gweithio drwy bobl ddiffygiol. Gofynnaf ichi gofio'r ddau ohonom felly, a'n gwendid. Yna, wrth edrych uwchlaw hynny, fe welwch y gwirionedd yn pelydru. Ie, peth real yw gwendid person, ond mae gras Duw yn fwy o lawer nag unrhyw wendid dan yr haul.

**Holi**

- Cafodd Delila ei hudo gan drachwant ac elw personol. Beth yw'r pethau sy'n ein temtio ni i gyfaddawdu o safbwynt ein gwerthoedd? Sut allwn ni wrthsefyll y temtasiynau?
- Anwybyddodd Samson y rhybuddion a pharhau i ymddiried, heb weld y niwed nes ei bod yn rhy hwyr. Wyddoch chi am enghreifftiau o hyn yn digwydd yn ein hoes a'n hamser ni?
- Pa rôl ddylai doethineb, atebolrwydd, a deisyf arweiniad Duw ei chwarae yn ein penderfyniadau?
- Pa wendidau sy'n anos inni eu hadnabod ynom ein hunain? A sut gall perthyn i gymuned Gristnogol fod o fudd inni fynd i'r afael â'n gwendidau?
- Sut gall y stori hon ein goleuo am ras Duw a'i allu i weithio drwy bobl amherffaith?

**Gweddi**

Arbed ni rhag ein balchder
a'n hunanoldeb.
Gwarchod ni rhag ein dewisiadau
gwael a rhag ymddiried mewn
pethau annoeth.
Atgyfnertha ni â'th rymuster.
Pan fyddwn yn syrthio,
tyn ni yn ôl atat a'th gariad.
Diolchwn am dy ras anhraethol
all ein hadnewyddu drachefn a
thrachefn. Amen.

**Siân Meinir**

**Cyhoeddiadau Radio, 14 Mehefin 2026**
**Radio Cymru**

*Caniadaeth y Cysegr*

**Sul, 14 Mehefin, am 7:30yb a 4:30yp**
Cymanfa Ganu Cofio Caradog Roberts, dan arweiniad Trystan Lewis (ailddarllediad)

*Oedfa Radio Cymru*

**Sul, 14 Mehefin am 12:00yp**
Oedfa dan arweiniad Kirsty McGhee, Tonbridge

# Dathliad Cenhadol yn llenwi Capel y Rhos: diwrnod o ffydd, cyfeillgarwch a chanu

Cynhaliwyd Dathliad Cenhadol Chwiorydd Sasiwn y Gogledd eleni yng Nghapel y Rhos, Llandrillo-yn-Rhos, bnawn Iau, 7 Mai 2026. Daeth cynulleidfa niferus ynghyd i ddathlu gwaith cenhadol yr enwad a chodi calon ei gilydd mewn ffydd. Roedd y capel modern yn llawn dop – golygfa a roddodd foddhad mawr i bawb.

Er mai adeilad newydd yw Capel y Rhos, mae'n cadw cysylltiad â'i wreiddiau, gyda ffenestri lliw o'r hen gapel yn harddu'r adeilad newydd. Roedd y dechnoleg yn gweithio'n esmwyth a hwylus, gan greu profiad croesawgar i bawb.

Daeth merched o bob cwr o ogledd Cymru i'r dathliad, yn ogystal ag ambell ŵr dewr a gafodd groeso cynnes. Roedd y sgwrsio cyn y cyfarfod yn fywiog, gyda chyfeillion yn ailgysylltu ac aelodau o gapeli gwahanol yn rhannu newyddion a hanesion. Roedd yn amlwg fod y dathliad yn gyfle pwysig i gryfhau'r berthynas rhwng eglwysi.

### Canu, gweddïo a chroeso cynnes

Cyn dechrau'r gwasanaeth, cafwyd cyfnod o ganu emynau dan arweiniad Nerys Owen o Lan Conwy, gyda Gwenda Roberts, un o organyddion Capel y Rhos, yn cyfeilio. Siân Haley oedd yn gyfrifol am y taflunydd, gan sicrhau bod pawb yn gallu dilyn y geiriau'n glir.

Agorwyd y cyfarfod gan Ceinwen Parry, Llywydd Sasiwn y Gogledd, a mynegodd ei llawenydd o weld y capel yn llawn. Yn ei gweddi agoriadol, gofynnodd i'r gynulleidfa ddathlu 'yng ngwir ystyr y Gair', gan osod naws o barch a diolchgarwch.

Darllenwyd detholiad o adnodau o Effesiaid 1 a 2 gan Buddug Jones, a chyflwynwyd gweddi o ddiolchgarwch am y fraint o ddod ynghyd fel chwiorydd mewn ffydd. Roedd y darlleniadau'n sail gadarn i'r anerchiad a ddilynodd.

### Cyfraniad disglair gan blant Ysgol Bod Alaw

Un o uchafbwyntiau'r prynhawn oedd perfformiad plant Ysgol Bod Alaw, Bae Colwyn. Daeth y plant, yn eu gwisgoedd coch llachar, â bywiogrwydd arbennig i'r capel. Roedd eu gwenau'n llenwi'r lle, a'u canu'n dangos disgyblaeth a hyder.

Cyflwynwyd rhaglen amrywiol o bum cân ganddynt, o arddull *gospel* i gerdd dant, gan gynnwys trefniant Gareth Glyn o 'Iesu Tirion' a chân yn seiliedig ar Salm 139.

Roedd yn amlwg fod y plant wedi mwynhau perfformio, a derbyniodd eu cyfraniad gymeradwyaeth gynnes. Diolchodd y Parch. Helen Wyn Jones iddynt am eu gwaith caled, a chyflwynodd Feibl Lliw i'r ysgol fel arwydd o werthfawrogiad.

### Cyflwyno'r thema: 'Gras ein Harglwydd'




Cyflwynodd Carys Davies, Cydlynydd Rhaglen Dorcas, y thema newydd ar gyfer gwaith y Chwiorydd eleni, sef 'Gras ein Harglwydd', wedi'i seilio ar weddi apostolaidd 2 Corinthiaid 13:13. Lansiwyd y llyfr thema newydd, sy'n cynnwys tystiolaethau ac erthyglau ar y Drindod a'r cysyniad o ras yn y Beibl.

Cynhyrchwyd 1,500 o gopïau o'r llyfr, gyda galwad i'w dosbarthu'n eang ledled yr enwad. Roedd *Bwletin Cenhadol* Gwanwyn 2026 hefyd ar gael i bawb.

### Anerchiad y Parch. Owain Davies

Traddodwyd anerchiad y prynhawn gan y Parch. Owain Davies, sy'n weinidog prysur gyda Gofalaeth Nant Conwy. Mae ei gefndir fel Swyddog Plant ac Ieuenctid yng Nghapel Berea Newydd, Bangor, wedi rhoi iddo brofiad helaeth o weithio gyda phobl ifanc, ac mae wedi sefydlu nifer o glybiau plant yn yr ofalaeth.

Roedd ei anerchiad yn glir, yn hawddgar ac yn llawn personoliaeth. Canolbwyntiodd ei neges ar faddeuant a gras y Groes, a'r galwad arnom i ymateb. Gan ddefnyddio delweddau



byw a chymariaethau ymarferol, pwysleisiodd fod Iesu wedi talu'r pris yn llawn ac yn ein galw i ymateb mewn ffydd ac ymrwymiad.

Atgoffodd y gynulleidfa o eiriau Iesu: "Ni adawaf chdi ...heddiw byddaf gyda thi ym Mharadwys" (Luc 23:43). Roedd y neges yn un gysurlon ac adeiladol, yn ein hannog i edrych at ras y Groes fel ffynhonnell gobaith.

Diolchwyd iddo'n gynnes gan Ceinwen Parry. 'Wow!' oedd ei hadwaith diffuant.

### Adroddiad ariannol a gwahoddiad i ddathliad 2027

Rhoddodd Margaret Jones, Trysorydd y Sasiwn, adroddiad ar y casgliad cenhadol. Ar hyn o bryd mae'r cyfanswm yn £7,500, gyda mwy i ddod. Eglurodd fod yr arian yn cael ei rannu rhwng gwaith tramor ac adref, a bod pob ceiniog yn gwneud gwahaniaeth.

Cyhoeddwyd hefyd y bydd Dathliad Cenhadol 2027 yn cael ei gynnal yng Nghapel y Groes, Pen-y-groes, Dyffryn Nantlle. Rhoddodd Bob Morris wahoddiad cynnes, gan rannu hanes yr eglwys, sy'n gweithredu heb weinidog ond gyda gweithgareddau niferus yno i blant ac ieuenctid.

### Diolchiadau a chloi

Diolchodd Ceinwen Parry i bawb a fu'n rhan o'r trefniadau, yn enwedig y rhai a fu'n paratoi'r lluniaeth a'r rhai a gyfrannodd at y gwasanaeth. Daeth y dathliad i ben gyda darlleniad ar y cyd a chanu'r emyn 'Diolch i Ti' – diweddglo addas i ddiwrnod o ffydd, cyfeillgarwch a chyd-ddathlu.

*Gwenith Jones*
*(Ysgrifennydd Sasiwn Genhadol Chwiorydd y Gogledd)*

# Ny Ako – Taith Cymru
# 14 Mehefin–12 Gorffennaf 2026

### Beth yw Ny Ako?

Ystyr Ny Ako yn yr iaith Falagaseg yw 'yr adlais', ac mae'r grŵp yn rhan o Adran Gelfyddydau Undeb y Gair, Madagascar. Trwy gerddoriaeth, canu a dawns, mae Ny Ako, a ffurfiwyd yn 1989, yn rhannu'r ffydd Gristnogol wrth ddathlu diwylliant cyfoethog Madagascar. Daw ei aelodau o wahanol eglwysi Cristnogol ac maent yn unedig yn eu hawydd i ddefnyddio'u doniau i ysbrydoli ac annog eraill, ym Madagascar ac o gwmpas y byd.



### Pam mae Ny Ako yn teithio o gwmpas Cymru?

Bob dwy flynedd mae Ny Ako yn teithio i Ewrop, gan ymweld â gwledydd gan gynnwys Ffrainc, Gwlad Belg, yr Almaen, y Swistir, yr Iseldiroedd a'r Deyrnas Unedig. Mae Cymru yn gyrchfan arbennig i'r grŵp oherwydd ei chysylltiad hir â Madagascar. Ym 1818, cyrhaeddodd rhai o'r cenhadon Cristnogol cyntaf Fadagascar o Gymru. Cafodd eu gwaith effaith barhaol, ac mae Cristnogaeth yn parhau i chwarae rhan bwysig ym mywyd Madagascar heddiw.

I Ny Ako, mae ymweld â Chymru fel mynd adref. Mae'n gyfle i ddiolch i eglwysi a chymunedau Cymru am eu cefnogaeth hanesyddol ac i rannu sut mae'r ffydd Gristnogol yn parhau i dyfu a ffynnu ym Madagascar.

### Beth all cynulleidfaoedd ei ddisgwyl?

Mae Ny Ako yn cynnig perfformiad bywiog a dyrchafol sy'n llawn lliw, egni a chynhesrwydd diwylliant Madagascar. Gall cynulleidfaoedd fwynhau cerddoriaeth draddodiadol a modern, perfformiadau dawns bywiog, gwisgoedd traddodiadol hardd a mynegiant o'r ffydd Gristnogol.

P'un a ydych chi'n mwynhau cerddoriaeth o rannau eraill o'r byd, profiadau diwylliannol, neu am ddysgu am y ffydd Gristnogol, mae perfformiadau Ny Ako yn cynnig rhywbeth i bawb. Mae'n gyfle unigryw i brofi diwylliant Madagascar a dathlu'r cyfeillgarwch arbennig rhwng pobl Cymru a Madagascar.

*Miara Rabearisoa, Trefaldwyn*

# Cyngherddau

Sul, 13 Mehefin am 7pm: Eglwys Llanfair, Pen-rhys
Mawrth, 16 Mehefin am 7pm: Canolfan Gristnogol y Gilgant, y Drenewydd
Gwener, 19 Mehefin am 7pm: Neuadd Bentref Aberdyfi
Sadwrn, 20 Mehefin am 7pm: Yr Hen Ysgol, Cegidfa (Guilsfield)
Mawrth, 23 Mehefin am 7pm: Yr Eglwys Ddiwygiedig Unedig, Coleham Head, Amwythig
Mercher, 24 Mehefin am 7pm: Christ Church, Croesoswallt
Gwener, 26 Mehefin am 7pm: Hen Gapel Stryd Bethel, Llanidloes
Sadwrn, 27 Mehefin am 7pm: Capel Bwlchgwynt, Tregaron
Llun, 29 Mehefin am 7pm: Eglwys Crist, y Bala
Mercher, 1 Gorffennaf am 7pm: Yr Aelwyd, Blaenau Ffestiniog
Gwener, 3 Gorffennaf am 7pm: Capel Rhos-y-gad, Llanfair-pwll
Sadwrn, 4 Gorffennaf am 6pm: Capel y Groes, Wrecsam
Sul, 5 Gorffennaf am 7pm: Capel Trefaldwyn, Trefaldwyn
Mawrth, 7 Gorffennaf am 7pm: Capel y Morfa, Aberystwyth
Iau, 9 Gorffennaf am 7pm: Eglwys Bresbyteraidd y Tyllgoed, Caerdydd
Gwener, 10 Gorffennaf am 7pm: Eglwys Dewi Sant, Trefforest
Sul, 12 Gorffennaf am 4pm: Eglwys Bresbyteraidd Sandfield, Port Talbot

**Digwyddiadau Eraill**

Llun, 15 Mehefin: Cyngerdd byr yn Ysgol Gynradd Penrhys
Mawrth, 16 Mehefin: Cyngerdd byr i Ysgol Gynradd Penygloddfa yn y Gilgant, y Drenewydd
Iau, 18 Mehefin: Cyngerdd byr i Ysgol Trefaldwyn yng Nghapel Trefaldwyn
Sul, 20 Mehefin: Gwasanaeth yng Nghapel y Groes-lwyd, Cegidfa (Guilsfield)
Gwener, 26 Mehefin: Cyngerdd byr yn Ysgol Gynradd Llanidloes
Sul, 28 Mehefin: Gwasanaethau yn Oakley Park, Llanidloes, a Chapel Aberbechan
Mawrth, 30 Mehefin: Gweithdy yn Ysgol Godre'r Berwyn, y Bala
Mercher, 1 Gorffennaf: Gwasanaeth yn Ysgol Maenofferen, Ysgol y Moelwyn ac Ysgol Manod
Iau, 2 Gorffennaf: Cyngherddau byr yn Ysgol Parc y Bont ac Ysgol Bryngwran
Llun, 6 Gorffennaf: Cymanfa Gyffredinol EBC, Porthmadog
Mercher, 8 Gorffennaf: Cyngerdd byr – Ysgol Gynradd Gymraeg Aberystwyth
Sadwrn, 11 Gorffennaf: Dathlu 40 mlynedd elusen Money For Madagascar, Capel y Nant

Cyswllt: Miara Rabearisoa
ebost: miara.rabearisoa@ebcpcw.cymru; ffôn: 07443 907041



**Anfonwch eich cyfraniadau at y golygyddion:** Aled Davies: aled@ysgolsul.com
Huw Powell-Davies: huw@cennad.cymru
Tîm Golygyddol: Aled Davies, Huw Powell-Davies a Marian Beech Hughes (golygydd iaith)
Gwefan: www.cennad.cymru | Facebook: CennadCymru | X: @CennadCymru
Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru.
*Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr **Cenn@d** yn cynrychioli barn swyddogol yr enwadau hyn.*

Os ydych yn poeni am unigolyn neu sefyllfa ac angen cyngor diogelu, cysylltwch â'r Panel Diogelu Cydenwadol **www.panel.cymru** **ar 01745 817584** **neu 07957 510346** yn ystod oriau swyddfa neu **Thirtyone:eight ar 0303 0031111** am gyngor tu allan i oriau swyddfa.